Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) yn gweithredu o dan enw Gyrfa Cymru.

Penodi Aelodau i'r Bwrdd (2)

Dyddiad cau: 4pm, 17 Hydref 2022

Rheoleiddiwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl Aelod o'r Bwrdd

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau CCDG

Atodiad C: Y broses ddethol

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod o fwrdd Gyrfa Cymru.

Mae Aelodau o Fwrdd CCDG:

- yn rhoi arweiniad effeithiol, yn diffinio a datblygu cyfeiriad strategol ac yn gosod amcanion sy'n cynnig her;
- yn hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- yn sicrhau bod gweithgareddau CCDG yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- yn monitro perfformiad i sicrhau bod CCDG yn ysgwyddo'i ddyletswyddau, amcanion, nodau a thargedau perfformiad statudol yn llawn.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion am rôl aelodau'r bwrdd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Gyrfa Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-a82215aefca4/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Aelod o Fwrdd CCDG, ac yna cliciwch ar y botwm ‘Gwneud cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Bydd modd ichi wedyn wirio cynnydd eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, drwy'r cyfrif a gofrestrwyd.

Unwaith i chi gofrestru, byddwch yn gallu mynd at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi yn y broses o gyflawni amcan penodol. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Mae’n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwnnw.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	4pm, 17 Hydref 2022
Dethol y rhestr fer:	1 a 2 Tachwedd 2022
Cyfweliadau:	7 ac 8 Rhagfyr 2022

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru'n annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol all fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Enwau Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Penodiadau Cyhoeddus / Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Bwrdd CCDG a rôl ei Aelodau, cysylltwch â: Sam Evans, Pennaeth Polisi Gyrfaoedd:

Ffôn: 0300 062 5224
E-bost: sam.evans@llyw.cymru

Os bydd arnoch angen mwy o gymorth wrth ichi wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus drwy PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod i Fwrdd CCDG

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelod o Fwrdd CCDG yn ymwneud â'r canlynol:

- Chwarae rôl weithgar wrth gyflawni cylch gwaith CCDG gan sicrhau y bydd CCDG yn gwneud yr argraff orau. Bydd hynny'n cynnwys rhannu eu harbenigedd ynghylch yr hyn sy'n gweithio, herio'r status quo ac awgrymu atebion;

- Sicrhau cydymffurfedd â rheolau caffael perthnasol, mewn perthynas â chael cyllid gan Lywodraeth Cymru (o ran bod CCDG yn is-gwmni y mae Llywodraeth yn berchen arno, ac yn gwmni *Teckal*) a gwariant CCDG fel awdurdod contractio sy'n ddarostyngedig i'r rheolau caffael.

- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd a pharatoi'n drylwyr ar gyfer y cyfarfodydd hynny;

- Bod yn barod i wasanaethu ar is-bwyllgorau;

- Rhoi arweiniad i reolwyr a staff CCDG o safbwynt llunio a gweithredu Gweledigaeth Strategol newydd am bum mlynedd ar gyfer Gyrfa Cymru;

- Mynd ati i roi her a chynnig cymorth, a sicrhau bod y naill yn cydbwyso'r llall, i reolwyr a staff CCDG wrth eu gwaith;

- Cynrychioli CCDG mewn digwyddiadau cyhoeddus; (os byddai'n gyfweliad ffurfiol neu'n ddatganiad byddai angen cysylltu â'n hadran farchnata i ddechrau)

- Hyrwyddo proffil CCDG; a

- Hwyluso'r cysylltiad â rhanddeiliaid CCDG a mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar y cyd â chymunedau a rhanddeiliaid perthnasol;

- Deall a chydymffurfio ag ymrwymiadau rôl gyhoeddus, fel y'i diffinnir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.

Manyleb y person

Mae CCDG yn chwilio am ddau aelod newydd o'r bwrdd (Cymraeg yn ddymunol) sydd ag amrywiaeth o arbenigedd, ar draws amrediad o sectorau economaidd, proffesiynau a grwpiau cymdeithasol.

Byddem hefyd yn croesawu ceisiadau gan unigolion â sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Addysg (Uwchradd / AB)

Meini Prawf Hanfodol
Er mwyn cael eich ystyried, **rhaid** ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi:

- Y gallu i herio mewn ffordd adeiladol
- Prawf o lwyddiant blaenorol mewn meithrin cysylltiadau ag amrywiaeth o randdeiliaid
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â dysgu a gwaith ar lefel gymunedol, lleol, rhanbarthol neu genedlaethol
- Ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, a'r gallu i egluro materion cymhleth mewn modd cryno a chlir, gan ddangos parch at safbwyntiau pobl eraill
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol
- Deall bywyd cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu da

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr sy'n cael eu rhoi ar restr fer ymhelaethu ar sut y maent yn bodloni'r meini prawf uchod gan ddefnyddio enghreifftiau a dangos tystiolaeth.

Y Gymraeg

Iaith Gymraeg - Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn **ddymunol** ar gyfer y ddwy swydd, fel a ganlyn:

Deall – Gallu deall rhannau o sgwrs sylfaenol

Siarad – Gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg

Ysgrifennu – Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

Darllen – Gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol gyda dealltwriaeth.

Er nad yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol, dylai pob ymgeisydd ddangos eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg mewn cenedl ddwyieithog, gan werthfawrogi polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith.

Mae CCDG yn darparu gwasanaethau dwyieithog a bydd yn chwarae rôl amlwg wrth hyrwyddo ac integreiddio cymorth a chyngor ynghylch y Gymraeg a sgiliau Cymraeg fel rhan o'i weithrediadau ac wrth ddarparu gwasanaethau cynghorol.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Fel arfer, caiff cyfarfodydd CCDG eu cynnal mewn lleoliadau ym mhob rhan o Gymru, ac fe'u cynhelir bob chwarter. Disgwylir i aelodau'r bwrdd ymgymryd â'u dyletswyddau drwy Gymru gyfan. Fel rhan o addasiad rhesymol, rhoddir ystyriaeth i geisiadau gan aelodau sydd am gyfrannu o bell.

Ymrwymiad amser:	Disgwylir ichi ymrwymo o leiaf wyth diwrnod y flwyddyn, a dau ddiwrnod datblygu ychwanegol.
Hyd y penodiad:	Bydd cyfnod eich penodiad yn para 3 blynedd. Gall y penodiad gael ei derfynu'n gynnar gan y naill parti neu'r llall drwy roi rhybudd ysgrifenedig o fis. Gallwch wasanaethu hyd at ddau dymor tair blynedd yn olynol yn y swydd, yn amodol ar gymeradwyaeth gweinidogol.
Taliad cydnabyddiaeth:	Nid gweithwyr cyflogedig i'r cwmni na Llywodraeth Cymru yw Aelodau Bwrdd CCDG, ac maent ar hyn o bryd yn gwasanaethu yn wirfoddol ac yn ddi-dâl. Caiff treuliau teithio a chynhaliaeth sy'n cael eu hysgwyddo gennych i fynd i gyfarfodydd CCDG neu wrth ymweld â lleoliadau ar ran CCDG, yn cael eu had-dalu gan CCDG yn ôl y gyfradd sy'n gymwys i aelodau o Bwyllgorau'r Llywodraeth. Dylid hawlio ad-daliadau drwy Ysgrifenyddiaeth CCDG. Gellid hefyd talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn cael eu hysgwyddo wrth wneud gwaith i CCDG. Mae Cadeiryddion y tri phwyllgor hefyd yn cael taliad dyddiol.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Pe byddai Bwrdd CCDG yn cael ei ddiddymu, ei ailstrwythuro neu ei ddirwyn i ben cyn diwedd cyfnod arferol eich penodiad, bydd eich penodiad yn cael ei derfynu ar ddyddiad y diddymiad neu ar ddyddiad arall a amlinellir mewn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Caiff y penodiad ei derfynu'n syth pe byddech yn cael eich dyfarnu'n euog o drosedd, a/neu os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod eich ymddygiad yn golygu nad ydych o hynny ymlaen yn berson addas ar gyfer swydd Aelod o Fwrdd CCDG.

Gall eich swydd fel Aelod o Bwrdd gael ei chymryd oddi wrthych cyn diwedd hyd cyfnod y penodiad os byddwch yn destun gorchymyn methdalu.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd CCDG yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Nodwch bydd gofyn i'r sawl a benodir fodloni gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau.

Gwrthdaro o ran buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Fwrdd CCDG, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar Fwrdd CCDG.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hynny ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd dyladwy
Bydd y tîm penodiadau cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer pob ymgeisydd sydd ar y rhestr fer i gael eu cyfweld. Bydd hynny'n cynnwys, ond nid o anghenraid yn cael eu cyfyngu iddynt, y cyfryngau cymdeithasol a chwiliadau ar y rhyngrwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl y gofynnir ichi gwestiynau yn y cyfweliad sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen honno ar gael yma: http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau CCDG - Gyrfa Cymru

Y cefndir
Mae Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG) yn is-gwmni y mae Llywodraeth Cymru yn meddu arno a gafodd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2013. Enw masnachol y cwmni yw Gyrfa Cymru, ac mae'n darparu gwasanaethau amrywiol sy'n integreiddio'r defnydd o dechnolegau digidol ochr yn ochr â chyfryngau wyneb yn wyneb mwy traddodiadol. Mae'r cwmni'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am yrfaoedd, sy'n ddiduedd ac yn ddwyieithog, i bobl o bob oed yng Nghymru.

Mae Gyrfa Cymru'n cefnogi cwsmeriaid i fod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd, gan gydnabod nad yw rheoli gyrfa bellach yn golygu dewis un yrfa yn unig, ond yn hytrach ddilyn llwybr gyrfa o wahanol swyddi ar hyd eich oes. Drwy wella sgiliau a chymwyseddau rheoli gyrfa, gall cwsmeriaid drosglwyddo o un swydd i un arall yn rhwyddach, mwynhau lefel uwch o foddhad o ran gyrfa, a chwarae rhan fwy gweithgar yn yr economi.

Ym mis Ebrill 2021 lansiodd Gyrfa Cymru eu gweledigaeth bum mlynedd, 'Dyfodol Disglair'. Uchelgais y weledigaeth hon yw creu dyfodol disglair i bob person ifanc a phob oedolyn yng Nghymru. I wireddu'r uchelgais mae Gyrfa Cymru wedi datblygu pedwar nod strategol:

- Darparu gwasanaeth hyfforddiant ac arweiniad diduedd, cynhwysol a dwyieithog i bobl Cymru
- Datblygu eu gwaith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion o ran sgiliau a'r cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion
- Helpu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a chyfrannu at gyflawni ei bedwar diben ar gyfer dysgwyr
- Datblygu gweithlu medrus, ymgysylltiol a dymunol ar gyfer Gyrfa Cymru a sicrhau y gellir darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid

Caiff eu gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc mewn addysg ei ariannu drwy eu grant Gyrfa Cymru craidd. Mae Gyrfa Cymru ar hyn o bryd yn cael cyllideb gwerth £18.8 miliwn o gyllid grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Caiff eu gwaith o gefnogi'r rhai nad ydynt mwyach mewn addysg ei wneud drwy eu Gwasanaethau Cymru'n Gweithio, ac ariennir y gwaith hwn ar wahân.

Rôl y Bwrdd
Rôl y bwrdd yw:

- rhoi arweiniad effeithiol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion sy'n cynnig her;
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau bod gweithgareddau CCDG yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol; a

- monitro perfformiad i sicrhau bod CCDG yn ysgwyddo'i ddyletswyddau, amcanion, nodau a thargedau perfformiad statudol yn llawn.

I wneud hynny, rhaid i'r bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ar reoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol. Disgwylir i'r bwrdd sicrhau ei hunan am effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol a rheoli risg.

Yn benodol, mae'r bwrdd yn gyfrifol am:

- sefydlu a datblygu nodau ac amcanion strategol CCDG sy'n gyson â'i ddiben cyffredinol ac yn rhan o ddogfen Erthyglau Cymdeithasu a Fframwaith CCDG a bennir gan Weinidog yr Economi;
- sicrhau bod Gweinidog yr Economi yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n debygol o gael effaith ar gyfeiriad strategol CCDG neu ar ei allu i gyrraedd ei dargedau, ac am y camau sydd eu hangen i ymdrin â newidiadau o'r fath;
- sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn perthynas â defnyddio cyllid cyhoeddus;
- sicrhau ei fod yn derbyn ac yn adolygu gwybodaeth ariannol ynghylch gwaith rheoli CCDG yn rheolaidd; a
- dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys defnyddio'r pwyllgor archwilio i helpu'r bwrdd i ymdrin â risgiau ariannol allweddol a rhai eraill.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Sinead Gallagher, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru. Bydd y panel hefyd yn cynnwys Erica Cassin, Cadeirydd, Bwrdd CCDG a Tom Wylie fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu erbyn 21 Tachwedd 2022 pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad ar 7 neu 8 Rhagfyr 2022.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig i gael cyfweliad, y mae o'r farn eu bod wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol sylfaenol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweliad, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu pryd bydd y panel dethol ar gael.

Bydd system recriwtio ar-lein Llywodraeth Cymru yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau ar Microsoft Teams.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Nodwch fod cyfweliadau penodiadau cyhoeddus Llywodraeth yn seiliedig ar gymwyseddau. Felly, bydd paneli asesu pob cyfweliad yn gofyn cwestiynau i ymgeiswyr sy'n seiliedig ar bob un o fanylebau'r person (a amlinellir uchod).

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hynny cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch rhwng dyddiad y cyfweliad a phan fydd y penderfyniad terfynol ynghylch y penodiad yn cael ei wneud. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Fwrdd CCDG, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.